



Ysgol Pentreuchaf

112. Polisi Medrau Meddwl / Sgiliau Meddwl

Nod

Ffocysu ar sgiliau meddwl yn y dosbarth i gefnogi proses wybyddol gweithredol, sy'n sicrhau gwell dysgu. Mae hyn yn arfogi'r dysgwr i fynd tu hwnt i'r wybodaeth gafodd, i ymateb yn systematig ond yn hyblyg gyda phroblemau a sefyllfaeodd newydd, i fabwysiadu agwedd feirniadol tuag at wybodaeth a dadl yn ogystal â chyfathrebu'n effeithiol.

Bydd yn datblygu eu gallu i weithio gydag eraill, i wella eu dysgu eu hunain a'u perfformiad ac i fedru datrys problemau

Amcanion

1. Creu cyfleoedd i blant gaffael a defnyddio eu sgiliau meddwl
2. Hyrwyddo'r sgiliau hyn ym mhob rhan o'r cwricwlwm pan fo'r modd.
3. Ystyried yr ystod o arddulliau dysgu ym mhob grwp neu ddosbarth
4. Ystyried hoff arddull dysgu plentyn
5. Darparu strwythurau i hyrwyddo caffael y sgiliau yma a gwneud y sgiliau hyn yn glir i'r dysgwyr
6. Asesu datblygiad y disgyblion yn eu caffael a'u defnydd o'r sgiliau hyn

Canllawiau

1. Mae meddwl o safon uchel yn gofyn i athrawon gynhyrchu a defnyddio tasgau dysgu sydd ag elfen pen agored iddynt er mwyn i'r dysgwr fedru penderfynu ystyr neu farnu.
2. Ar adegau, dylid rhoi cyfleoedd i ddigybllion ddewis eu gweithgareddau a chynllunio eu dysgu eu hunain.
3. Mae angen rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu yn weledol, yn glywedol ac yn kinestetig. Weithiau dylai hyn fod o'u dewis eu hunain, ac weithiau o ddewis yr athrawes, i gryfhau'r elfennau eraill.
4. Rhaid i ddysgwyr gael amser a chyfle i siarad am strategaethau a phrosesau, i wneud eu llwybrau meddwl yn gliriach ac i fyfyrion ar eu strategaethau eu hunain.
5. Gan fod plant yn dod a'u cysyniadau eu hunain i'r dosbarth, rhaid i athrawon gyflwyno gwybodaeth newydd a strategaethau gwahanol i feddwl drwy hyfforddiant goleuedig, gweithgareddau ymarferol, deialog, myfyrdod a thrafodaeth.
6. Rhaid cael diwylliant o fewn y dosbarth (a'r ysgol) sy'n hyrwyddo agwedd agored tuag at natur gwybodaeth a meddwl a chreu awyrgylch lle mae siarad am feddwl - cwestiynu, rhagfynegi, gwrth ddweud, amheuaeth – yn cael ei groesawu, nid ei oddefu.
7. Dylai athrawon oresgyn y duedd i geisio cael plant i feddwl yn gyflym, gan bwysleisio'r angen i gymryd amser i fyfyrion, datrys problemau a meddwl mewn dyfnder.
8. Mae dysgu yn weithgaredd gweithredol, nid goddefol felly mae'n rhaid cael mewnbwn uniongyrchol gan y dysgwr.
9. Mae geirfa naturiol cysylltiol gyda meddwl a rhaid i hwn gael ei fodelu a'i annog.

Dylid ystyried -

sgiliau prosesu gwybodaeth

adnabod, unodi a chasglu gwybodaeth
trefnu
dosbarthu
dilyniannu
cymharu a chyferbynnu
dadansoddi perthynas

Sgiliau rhesymu

rhoi rhesymau dros farn a gweithred
ffurfio rhesymiad
gwneud casgliadau
egluo eu meddyliau
beirniadau / barnu a gwneud penderfyniadau ar sail rhesymu neu dystiolaeth

Sgiliau ymholi

gofyn cwestiynau perthnasol
gosod a diffinio problemau
cynllunio beth i'w wneud
meddwl sut i ymchwilio
rhagfynegi canlyniadau
rhagweld canlyniadau
profi casgliadau
gwella syniadau

Sgiliau meddwl yn greadigol

cynhyrchu ac ymestyn syniadau
damcaniaethu
defnyddio'r dychymyg
edrych am ganlyniadau arall, arloesol

Sgiliau arfarnu

arfarnu gwybodaeth
barnu gwerth yr hyn mae'r dysgwr yn ei ddarllen, glywed ac yn ei wneud
datblygu meini prawf i feirniadu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Casgliad

Dylai disgyblion gael eu hannog i fyfyrio ar beth a sut y maent yn dysgu, a sut mae'r sgiliau yma yn cael eu cymhwyso i wahanol bynciau, gwahanol broblemau a sefyllfaeodd bywyd go iawn.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____